Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ysbyty Annibynnol New Hall
## Dyddiad yr arolygiad: 24, 25 a 26 Hydref 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 26 Ionawr 2024



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-404-5
© Hawlfraint y Goron 2024



Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd garedig a pharchus drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom y cleifion yn ymddwyn yn yr un ffordd tuag at y staff drwy gydol yr arolygiad.

Roedd rheolwyr a staff y gwasanaeth wedi dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymateb i ymddygiad heriol mewn ffordd ddigynnwrf a phriodol ac roedd trefniadau da ar waith yn gyffredinol i fformiwleiddio risgiau'n amserol.

Roedd y lleoliad wedi atgyfnerthu'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella ar unwaith yn ein harolygiad diwethaf ac roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Ysbyty Annibynnol New Hall ar noson y 24ain Hydref a thrwy'r dydd ar 25 a 26 Hydref 2023.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Glaslyn – ward â phedwar gwely
- Ward Adferiad – ward â chwe gwely

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (a oedd yn cynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac Arbenigwr drwy Brofiad. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ymgysylltu â'r cleifion lle roedd hynny'n bosibl fel y gallent ddweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan y staff.  Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.



# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd garedig a pharchus drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom y cleifion yn ymddwyn yn yr un ffordd tuag at y staff drwy gydol yr arolygiad.

Roedd mynediad da i weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle, a oedd o fudd therapiwtig i'r cleifion ac yn seiliedig ar eu hoffterau a'u dewisiadau. Gwnaethom gadarnhau y gallai'r cleifion dreulio amser gyda'u teulu os oeddent yn dymuno ac os oedd hynny'n briodol, ac roedd gwasanaethau eirioli a chynrychioli ar gael i'r cleifion yn ôl yr angen.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd garedig a pharchus drwy gydol yr arolygiad
- Roedd mynediad da i weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd rheolwyr a staff y gwasanaeth wedi dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymateb i ymddygiad heriol mewn ffordd ddigynnwrf a phriodol ac roedd trefniadau da ar waith yn gyffredinol i fformiwleiddio risgiau'n amserol.

Roedd lleoliad y cyfarpar brys a'r prosesau sydd ar waith i'w wirio wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ac roedd y staff yn gwybod sut i gael gafael ar y cyfarpar mewn argyfwng. Roedd asesiadau risg tân a adolygwyd yn ddiweddar wedi cael eu cwblhau ac roedd defnydd priodol yn cael ei wneud bellach o allanfeydd tân ym mhob rhan o'r lleoliad.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod materion cynnal a chadw a materion cadw tŷ yn cael eu datrys yn unol â'u blaenoriaeth a'u risg
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau cydymffurfiaeth bob amser â phrosesau cysoni stoc [meddyginiaeth]
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod agweddau ar drefniadau cadw cofnodion o ran cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cael eu hatgyfnerthu.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y lleoliad yn diweddaru dogfennau gofal mewn perthynas â fformiwleiddio risg ac ymddygiadau heriol i safon dda
- Roedd y lleoliad yn datblygu ffyrdd creadigol o gefnogi anghenion corfforol y cleifion a hygyrchedd
- Roedd prosesau gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn diogelu hawliau'r cleifion, ac roedd trefniadau rheoli a goruchwylio da ar waith.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd y lleoliad wedi atgyfnerthu'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella ar unwaith yn ein harolygiad diwethaf. Gwelsom brosesau llywodraethu gwell a oedd yn galluogi rheolwyr i ymateb yn amserol i risgiau ac adroddiadau am ddigwyddiadau.

Roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwnaethom nodi agweddau ar hyfforddiant y mae angen i'r lleoliad eu hystyried ymhellach yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau ei weithlu.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod cynllun hyfforddiant wedi'i ddiweddaru yn cael ei lunio yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau ei weithlu.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y lleoliad yn rhoi cyfle i'r staff gymryd rhan mewn sesiynau myfyriol o ansawdd uchel
- Roedd y lleoliad wedi llwyddo i lenwi sawl swydd nyrsio er mwyn cefnogi gofal parhaus ac adnabyddiaeth o'r cleifion.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

